Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**

26/03/2021

# Llythyr Diwedd Tymor

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Ysgrifennaf, ar ddiwedd tymor heriol arall, i ddiolch i'r disgyblion, staff, rhieni a Llywodraethwyr am eich holl gyfraniadau amhrisiadwy hyd yma. Mae wedi bod mor braf croesawu ein holl ddysgwyr yn ôl i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb. Mae'n wirioneddol galonogol gweld y disgyblion yn ôl yn y dosbarth gyda'u hathrawon a'u gweld yn rhyngweithio â'u ffrindiau, sy'n rhan hanfodol o'r hyn y mae ysgol yn ei ddarparu ac yn rhywbeth y mae'r plant wedi colli allan arno yn ystod cau'r ysgol.

Er ein bod yn croesawu symud yn ôl i addysgu a dysgu wyneb yn wyneb, mae'n rhaid i ni barhau i barchu a chadw at y mesurau lliniaru sydd ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth ddilyn gweithdrefnau'r ysgol wrth sicrhau ein bod ni i gyd yn helpu i amddiffyn ein gilydd. Rydym mewn sefyllfa lawer mwy cadarnhaol heddiw o gymharu â mis Rhagfyr diwethaf. Mae'r cyfraddau fesul 100,000 oddeutu 30 ac mae'r gyfradd bositifrwydd oddeutu 3%.

Wrth i ni baratoi ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch hysbysu am rai **dyddiadau a gweithgareddau allweddol ar gyfer Tymor yr Haf**. Byddwn yn canolbwyntio ar les ein dysgwyr gan fod ein plant a'n pobl ifanc wedi bod i ffwrdd o'u hystafelloedd dosbarth am gryn amser. Felly, byddaf yn mynd ati i annog dysgu pwrpasol yn yr awyr agored fel rhan o'n haddysgu a'n dysgu.

| Dyddiad | Pwy? | Digwyddiad |
|---|---|---|
| 12/04/21 | Ysgol gyfan | Dechrau tymor yr Haf i bawb |
| 19-23/04/21 | Ysgol gyfan | Wythnos dysgu awyr agored |
| 22/04/21 | Ysgol gyfan | Diwrnod y Ddaear |
| Llun 03/05/21 | Ysgol gyfan | Bank holiday |
| Mawrth 04/05/21 | Ysgol gyfan | Diwrnod HMS – *ysgol ar gau i blant* |
| 31/05-06/06/21 | Ysgol gyfan | Hanner tymor |
| 07/06/21 | Ysgol gyfan | Diwrnod HMS – *ysgol ar gau i blant* |
| 25/06/21 | Ysgol gyfan | Diwrnod HMS – *ysgol ar gau i blant* |
| 16/07/21 | Ysgol gyfan | Diwrnod olaf tymor yr Haf |

**Diwygio'r cwricwlwm -** Mae tirwedd Addysg yng Nghymru yn newid ac ar hyn o bryd mae Cymru yn y broses o ddiwygio cenedlaethol a chyflwyno Cwricwlwm newydd Cymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth a fideo ynghylch y newidiadau a'r llinell amser ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd ar wefan yr ysgol: https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/cwricwlwm-i-gymru-curriculum-for-wales-2022/

Mae'n amser cyffrous i ysgolion ledled Cymru. Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i ysgrifennu cwricwlwm sy'n bersonol iddyn nhw erbyn 2022. Ein gweledigaeth o'r cwricwlwm newydd ar gyfer Parc y Tywyn yw sefydlu rhaglenni astudio cyffrous sy'n chwalu ffiniau pwnc. Rydym an ennyn diddordeb disgyblion yn lle maen nhw'n byw a gwneud iddyn nhw feddwl a deall cysylltiadau eu cymuned â Chymru a'r byd ehangach. Bydd cwricwlwm newydd Ysgol Parc y Tywyn yn siwrnai o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau pwrpasol sy'n herio pawb i lwyddo**.**

Gyda hyn mewn golwg, hoffem gael eich help. Mae Porth Tywyn fel cymuned yn gyfoethog o ran hanes, lleoedd o ddiddordeb, busnes a diwydiant i enwi ond ychydig. Er mwyn ein cynorthwyo i gynllunio'r cwricwlwm, hoffem glywed eich barn a defnyddio'ch gwybodaeth am yr ardal leol. Gofynnwn yn garedig ac annogwn rieni i lenwi'r holiadur canlynol i'n helpu i lunio ein cwricwlwm newydd cyffrous. Bydd eich ymatebion yn werthfawr iawn wrth i ni symud ymlaen i gamau nesaf diwygio'r Cwricwlwm i'n disgyblion yma ym Mharc y Tywyn. Llenwch yr holiadur erbyn dydd Mercher, Ebrill 14eg.
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-Aj-dL1UCFOnERbnsz2WjdUM1ZUUFo1SkRRODUwNUEzRVUwSFNNVDcxNC4u

**Anghenion Dysgu Ychwanegol –** Mae rhaglen genedlaethol o drawsnewid darpariaeth a chefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith, gyda'r bwriad y bydd y system newydd ar waith o Fedi 2021. Ceir gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig trwy ddilyn y linc yma: https://llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-y-system-anghenion...

Awgrymwn yn gryf bod rhieni disgyblion sydd ar y gofrestr Anghenion Addysg Arbennig o dan y system bresennol yn cwblhau MODIWL 1 - hyfforddiant ar lein yma er mwyn i chi gael deall beth fydd yn wahanol o dan y system newydd - https://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ADY/story_html5.html

**Profi, Olrhain a Diogelu -** Yn olaf, hoffwn atgoffa pob rhiant bod y gweithdrefnau POD yn dal i fod yn effeithiol 24-7, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau ysgol. Mae'n bwysig dweud wrthym a yw'ch plentyn yn profi'n bositif am Covid-19. Rhowch wybod yn uniongyrchol i Delta Wellbeing ar 0300 333 2222 neu e-bostiwch TTP@deltawellbeing.org.uk gan ddarparu enw, grŵp blwyddyn ac ysgol eich plentyn. Cofiwch os oes gan eich plentyn, neu unrhyw aelod o'ch cartref symptomau Covid-19, rhaid i chi hunan-ynysu a gofyn am brawf trwy ffonio 119 neu ddefnyddio'r porth ar-lein https://gov.wales/getting-tested-coronavirus-covid-19

Dymunwn gwyliau Pasg diogel a hapus i chi i gyd. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld chi i gyd ddydd Llun 12/04/21.

Yn gywir,

*C Davies* Pennaeth / Headteacher